

SWYDD-DDISGRIFIAD	
Teitl y Swydd	Gweithiwr Preswyl Plant
Portffolio	Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Integredig
Yn atebol i'r	Tîm Rheoli Cartref Preswyl Plant
Lleoliad	Cartrefi Preswyl Plant ar draws Sir y Fflint
Cyfeirnod Swydd / Rhif Adnabod	
Pwrpas y Swydd	
Fel Gweithiwr Preswyl Plant, eich prif gyfrifoldeb yw darparu gofal tosturiol a chyfannol i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn lleoliad preswyl. Byddwch yn defnyddio dull gweithredu therapiwtig sy'n ystyriol o drawma i feithrin amgylchedd cefnogol sy'n ffafriol i'w lles emosiynol, sefydlogrwydd, a thwf personol. Gan weithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc unigol, yn ogystal â'u teuluoedd neu ofalwyr, byddwch yn cyfrannu at ymdrech tîm sydd â'r nod o ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i'r rhai nad ydynt heb unrhyw fai eu hunain, yn gallu byw gydag aelodau o'u teulu neu sy'n dychwelyd atynt. Mae'r rôl hon yn cynnwys gweithio ar amserlen gylchdro sy'n cwmpasu sifftiau 24/7, a all gynnwys nosweithiau effro neu sifftiau cysgu i mewn. Mae hyblygrwydd yn allweddol, gan y gellir rhoi Gweithwyr Preswyl Plant mewn gwahanol gartrefi preswyl i ddiwallu anghenion esblygol y gwasanaeth, plant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae cadw mewn cysylltiad â chyn-breswylwyr wrth iddynt drosglwyddo i fyd oedolion ôl-18 yn hanfodol er mwyn darparu cymorth ac arweiniad parhaus. Cyfrifoldebau: - Darparu gofal tosturiol a chyfannol i blant a phobl ifanc mewn lleoliad preswyl. - Defnyddio dull therapiwtig y cytunwyd arno sy'n ystyriol o drawma i feithrin amgylchedd cefnogol. - Gweithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc unigol, yn ogystal â'u teuluoedd neu ofalwyr. - Cydweithio â thîm i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd i blant a phobl ifanc. - Cadw at rota hyblyg ar gyfer sifftiau 24/7, gan gynnwys nosweithiau effro neu sifftiau cysgu i mewn. - Bod yn barod i weithio mewn lleoliadau eraill yn ôl yr angen, yn seiliedig ar anghenion y plentyn/person ifanc. - Cynnal cysylltiad parhaus â chyn-breswylwyr wrth iddynt drosglwyddo i fyd oedolion ôl-18.	

Prif Gyfrifoldebau
1. Gweithio gyda phlant a phobl ifanc o dan ofal yr awdurdod lleol, gan sicrhau y cynhelir cymorth a chyswllt ôl-18. 2. Datblygu perthnasoedd proffesiynol dibynadwy gyda phlant a phobl ifanc, gan flaenoriaethu eu diogelwch tra'n meithrin grymuso o fewn ffiniau meithringar. 3. Gweithredu dulliau gofal therapiwtig sy'n ystyriol o drawma wedi'u teilwra i anghenion unigol. 4. Gweithredu a chadw at y cynllun gofal presennol, y cynllun personol, ac unrhyw bamedrau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys gorchmynion Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS). 5. Darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. 6. Meithrin amgylchedd cartrefol, tryloyw, gan gadw at safonau proffesiynol ac yn agored i drafodaeth. 7. Cyflawni dyletswyddau cysgu i mewn, oriau anghymdeithasol, a sifftiau nos byw/effro mewn lleoliadau amrywiol i ddiwallu anghenion unigol neu grŵp. 8. Cyfrannu at waith achos unigol a grŵp, gan sicrhau cyfranogiad ac adlewyrchiad o gryfderau, anghenion, a chanlyniadau dymunol. 9. Adnabod a dehongli ffiniau, gan gadw cofnodion cywir a chyfoes.

10. Arddangos creadigrwydd ac arloesedd wrth ymateb i sefyllfaoedd heriol i ddiogelu plant a phobl ifanc.
11. Archwilio ymddygiad i ddeall ei achos a'i swyddogaeth, gan hyrwyddo gwydnwch a lles trwy weithgareddau a strwythurau creadigol.
12. Datblygu perthnasoedd proffesiynol agos gyda chydweithwyr ac asiantaethau allanol i ymateb yn effeithiol i anghenion plant a phobl ifanc.
13. Gwasanaethu fel gweithiwr allweddol pan fo angen, gan sicrhau gofal therapiwtig rhagweithiol.
14. Cymryd rhan mewn rhaglenni goruchwylio, adolygu perfformiad, hyfforddi a datblygu.
15. Mynychu cyfarfodydd staff a phroffesiynol, gan ddarparu adroddiadau a chynnal cofnodion yn unol â phwrpas y cartref.
16. Ymdrin â materion ariannol yn unol â rheoliadau'r awdurdod a gweithredu fel aelod cefnogol o'r tîm gofal preswyl.
17. Addasu'n hyblyg er mwyn sicrhau cwmpas digonol a hysbysu cydweithwyr am ddatblygiadau perthnasol.
18. Rhoi gwybod am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â niwed, cam-drin neu gamfanteisio a glynu at bolisïau a gweithdrefnau diogelu.
19. Cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnal a chadw cartref ymarferol a chynnal safonau uchel o lanweithdra a chynnal a chadw.
20. Cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw a gofalu am ffabrig, offer a thir y cartref i atal difrod.
21. Cydweithio fel rhan o dîm, gan rannu cyfrifoldebau a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau diogelu.

Goruchwylio/Rheoli Pobl

Dim

Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

- Mae angen asesiad lechyd Galwedigaethol a gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Plant ac Oedolion) ar gyfer y rôl hon. Sylwch efallai na fydd euogfarn yn eithrio ymgeiswyr rhag cael eu penodi, ond caiff ei ystyried fel rhan o'r broses recriwtio.

Amodau Gwaith Arbennig

- Bydd gweithwyr yn gweithio ar sail rota yn cynnwys sifftiau 24/7, gan gynnwys penwythnosau, cysgu i mewn, a sifftiau nos effro.
- Mae'r rôl yn gofyn am deithio ledled y sir a ledled y DU; felly, mae angen Trwydded Yrru DU lawn ddilys i yrru'r cerbyd a neilltuwyd.
- Mae rôl y Gweithiwr Preswyl Plant yn cynnwys gweithio mewn cartref preswyl yn ogystal â lleoliadau amrywiol fel cartref aelodau teulu'r plentyn/gofalwyr, lleoliad addysg, lleoliad darparwyr gweithgareddau, a mannau awyr agored i hybu iechyd a lles wedi'u teilwra i anghenion a chynlluniau unigol ar gyfer y plentyn neu berson ifanc.

Manylion am yr Unigolyn		
Mae'r manylion am yr unigolyn yn amlinellu'r sgiliau, y wybodaeth, a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl, a fydd yn cael eu defnyddio wrth lunio rhestr fer o ymgeiswyr yn ystod y cyfnodau ymgeisio a chyfweld. Mae'n bwysig dangos sut rydych chi'n bodloni'r holl ofynion hanfodol.		
Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol	Hanfodol / Dymunol	Sut fydd hyn yn cael ei asesu?
- Lefel dda o addysg Addysg hyd at lefel TGAU Gradd C (5 TGAU neu fwy) neu QCF Lefel 2 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol/Ymarfer Cymdeithasol (neu gyfwerth).	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- QCF Lefel 3 lechyd a Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc neu gymhwyster cyfwerth neu'r gallu i'w gyflawni o fewn 18 mis.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, a meddu ar allu i gwblhau'r gofynion o fewn 6 mis	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd, (ECDL) dymunol	Dymunol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
Gwybodaeth a Phrofiad		
- Deall a chadw at ofynion statudol megis RISCA a Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol 2014.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Dealltwriaeth o weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a'u cymhwasiad o fewn cartref preswyl plant.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
Dealltwriaeth o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) a Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol 2014 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Profiad a dealltwriaeth o ddulliau therapiwtig o fewn Gofal Preswyl a'r gallu i'w rhoi ar waith yn ymarferol (e.e., PACE, DDP, DBT, MST, + Dulliau Rhagweithiol).	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Profiad o weithio mewn lleoliad preswyl i blant neu'n gyda phobl ifanc sydd wedi profi trawma, esgeulustod, colled, a gwrthodiad, ac sy'n dangos ymddygiad heriol.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad

- Y gallu i fod yn greadigol wrth ymateb i ymddygiadau heriol, aros yn ddigynnwrf, a rhoi technegau dad-ddwysáu ar waith.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Dealltwriaeth o arferion gofal preswyl i blant, arwyddion/symptomau cam-drin, datblygiad plant a phobl ifanc, effaith trawma, gallu rhianta, ffactorau amgylcheddol, risg, a ffactorau amddiffynnol i addasu'r amgylchedd i ddiwallu anghenion dyddiol.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Y gallu i ddatblygu perthnasoedd proffesiynol y gellir ymddiried ynddynt, gan gynnwys cynhesrwydd, didwylledd, a chysondeb wrth gyfathrebu gan gyfleu gofal ac awdurdod.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Hygyrchedd, gweithredu fel model rôl cadarnhaol, hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth, unigoliaeth, a darparu arweiniad a chymorth yn ôl yr angen.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Profiad o ddefnyddio system e-bost Outlook, Microsoft Word, Excel, PowerPoint a systemau TG eraill yn ogystal â gwybodaeth am blatfformau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Gallu eirioli, cefnogi a hyrwyddo llais plentyn.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Ymgysylltu a hyrwyddo anghenion a nodau plant trwy gynllunio a chyflwyno gweithgareddau yn greadigol ac yn frwdfrydig.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
Sgiliau		
- Gallu cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg.	Dymunol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Gallu cyfathrebu'n llafar ac yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Saesneg.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Y gallu i roi dulliau therapiwtig ar waith ac addasu'r amgylchedd i gefnogi canlyniadau cadarnhaol.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd proffesiynol, cadarnhaol a gweithio'n greadigol i hyrwyddo cydgynhyrchu gyda'r plentyn/person ifanc sydd wrth wraidd eu gofal a'u cymorth.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
	Hanfodol	

- Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd aml-asiantaeth i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a diogelu plant/pobl ifanc.		Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Y gallu i drafod ac atgyweirio perthnasoedd gyda phlant/pobl ifanc, gan gynnal diogelwch trwy gynnal disgwyliadau cytûn mewn ffordd feithringar, gefnogol a chyson.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Y gallu i drin cyfarfyddiadau anodd a sefyllfaoedd argyfyngus, gan gymhwyso strategaethau priodol ac arloesol wrth ddelio â dicter, trallod a gofid.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Y gallu i gofnodi digwyddiadau yn glir, yn gywir ac yn effeithiol a chynhyrchu adroddiadau ysgrifenedig clir i ddiogelu.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Y gallu i weithio'n greadigol ac arloesol ar sail 1:1 neu fel rhan o dîm i gefnogi iechyd a lles y plentyn/person ifanc.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Y gallu i asesu risg sefyllfaoedd ac amgylcheddau yn ddeinamig a gwneud penderfyniadau effeithiol i atal rhag gwaethygu a rhoi gweithdrefnau diogelu ar waith.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Sefydlu cysylltiadau a chynnal gwybodaeth am wasanaethau, datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda gwasanaethau statudol ac anstatudol i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Cynnal cofnodion swyddogol yn unol â pholisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth yr adran. (Hanfodol; Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad)	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Gallu cyfrannu'n effeithiol at gynllunio a datblygu darpariaeth gwasanaeth. (Hanfodol)	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Gallu gweithio oriau anghymdeithasol, sifftiau cysgu i mewn, a bod yn hyblyg i anghenion newidiol pobl ifanc a'r gwasanaeth.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Gallu gweithio dan bwysau a gallu gweithio ar eich liwt eich hun	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
	Hanfodol	

- Y gallu i ymddwyn yn gyfrifol a bod yn atebol am arian a ddyrannwyd.		Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Y gallu i gyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â rhedeg cartref bob dydd, gan gynnwys coginio, glanhau a chynnal a chadw.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Gallu cyflawni gweithgareddau sy'n cynnwys rhywfaint o godi a symud yn gorfforol a/neu ymyrraeth gorfforol ataliol pan fetho popeth arall	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
- Gallu gyrru a theithio o amgylch y wlad i ddiwallu anghenion y plant a phobl ifanc	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint	Hanfodol	Sut fydd hyn yn cael ei asesu?
Y Cwsmer yn Gyntaf: Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni eu disgwyliadau a rhagori arnynt.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
Gweithio'n Ddoethach: Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
Cydweithio / Gweithio mewn Partneriaeth: Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid a'n gweithwyr.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
Cyfathrebu: Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
Newid: Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau, drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaeth.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad
Arwain a Rheoli: Arwain a chymell eich hun ac eraill i wella perfformiad yn barhaus.	Hanfodol	Asesiad yn ystod y broses ymgeisio/ cyfweliad